# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

**RHAN 2**

HENEBION O DDIDDORDEB HANESYDDOL ARBENNIG

PROSPECTIVE

**PENNOD 1**

TERMAU ALLWEDDOL

**2 Ystyr "heneb" a "safle heneb"**

(1) Yn y Ddeddf hon ystyr "heneb" yw—

(a) unrhyw adeilad, unrhyw strwythur neu unrhyw waith (pa un ai uwchben wyneb y tir neu o dan wyneb y tir) ac unrhyw ogof neu unrhyw gloddiad;

(b) safle olion unrhyw adeilad, unrhyw strwythur neu unrhyw waith neu safle olion unrhyw ogof neu gloddiad;

(c) safle unrhyw gerbyd, unrhyw lestr, unrhyw gerbyd awyr neu unrhyw strwythur symudol arall, neu ran o wrthrych o'r fath, nad yw'n waith, nac yn ffurfio rhan o unrhyw waith, sy'n heneb o fewn paragraff (a);

(d) safle olion unrhyw wrthrych neu unrhyw ran o wrthrych a grybwyllir ym mharagraff (c);

(e) safle unrhyw beth, neu unrhyw grŵp o bethau, sy'n dystiolaeth o weithgarwch dynol blaenorol (ac eithrio safle sy'n dod o fewn paragraff (b), (c) neu (d)).

(2) At ddibenion is-adran (1) mae unrhyw beiriannau sydd wedi eu gosod yn sownd wrth heneb i'w trin fel pe baent yn rhan o'r heneb os na ellid eu datgysylltu heb eu datgymalu.

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) pennod yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, PENNOD 1. (See end of Document for details)*

(3) Nid yw is-adran (1)(a) yn gymwys i unrhyw adeilad crefyddol sy'n cael ei ddefnyddio am y tro at ddibenion crefyddol; ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(4) Nid yw is-adrannau (1)(c) a (d) yn gymwys—

(a) i safle unrhyw wrthrych neu ei olion oni bai bod lleoliad y gwrthrych hwnnw neu ei olion yn y safle penodol hwnnw yn fater o ddiddordeb i'r cyhoedd;

(b) i safle unrhyw lestr neu ei olion sy'n cael ei warchod gan orchymyn o dan adran 1 o Ddeddf Gwarchod Llongddrylliadau 1973 (p. 33) sy'n dynodi ardal o gwmpas y safle yn ardal gyfyngedig.

(5) At ddibenion y Ddeddf hon mae safle heneb yn cynnwys nid yn unig y tir y mae ynddo, arno neu odano ond hefyd unrhyw dir sy'n rhan o'r tir hwnnw neu sy'n cydffinio â'r tir hwnnw y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru neu awdurdod lleol, wrth arfer mewn perthynas â'r heneb honno unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau hwy neu o'i swyddogaethau ef o dan y Rhan hon, ei fod yn hanfodol er mwyn cynnal a diogelu'r heneb.

(6) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at heneb yn cynnwys—

(a) safle'r heneb o dan sylw,

(b) grŵp o henebion, ac

(c) unrhyw ran o heneb neu grŵp o henebion.

(7) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at safle heneb—

(a) yn gyfeiriadau at yr heneb ei hun pan fo'n safle, a

(b) mewn unrhyw achos arall yn cynnwys yr heneb ei hun.

(8) Yn yr adran hon mae "olion" yn cynnwys unrhyw arlliw neu unrhyw arwydd o fodolaeth flaenorol y peth o dan sylw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) pennod yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, PENNOD 1.